


YOUNG LIVES vs CANCER

# PECYN CYMORTH ETHOLIAD Y SENEDD

Sut i siarad â'ch darpar AS am anghenion plant a phobl ifanc â chanser.

# EICH PECYN CYMORTH AR GYFER

Haia! Enlli ydw i,

Cefais ddiagnosis o ganser yr ofarïau yn 2025 pan oeddwn i'n 19 oed. Fel llawer o blant a phobl ifanc â chanser a'u teuluoedd, yn sydyn roedd yn rhaid i mi lywio'r system gofal canser gymhleth.

Ar ôl diagnosis canser, mae plant a phobl ifanc â chanser, fel fi, a'u teuluoedd yn cael eu taflu i fyd anghyfarwydd, gan ddarganfod yn fuan fod effeithiau canser yn fwy na'r effeithiau meddygol. Cefais fy mod i'n poeni am waith, addysg a'm bywyd cymdeithasol, ochr yn ochr â'm hiechyd corfforol, ac roedd y cyfan yn pentyrru.

Oherwydd fy mhrofiad personol, rwyf am ymgyrchu gyda Young Lives vs Cancer i helpu i newid pethau i blant a phobl ifanc eraill â chanser a'u teuluoedd.

Mae etholiadau'r Senedd ym mis Mai yn amser allweddol i sicrhau newid i blant a phobl ifanc â chanser. Ac er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen eich help arnom.

Yn y pecyn cymorth hwn, byddaf yn rhannu rhai ffyrdd y gallwch ddefnyddio eich llais i helpu i sicrhau bod ymgeiswyr etholiadol, a Llywodraeth nesaf Cymru, yn deall y pethau sy'n bwysig i gleifion canser ifanc a sut y gallant eu gwella.

Rwy'n gyffrous i weld pa newidiadau y gallwn eu gwneud pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Diolch am gefnogi plant a phobl ifanc â chanser.

Enlli

YOUNG LIVES vs CANCER



# MANIFFESTO AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC Â CHANSER YNG NGHYMRU

Yn gyntaf, dyma grynodeb o'r pum prif flaenoriaeth yr ydym am i bob plaid wleidyddol yng Nghymru ymrwymo iddynt. Rydym wedi eu dewis oherwydd bod plant a phobl ifanc â chanser, a'u teuluoedd, yn dweud wrthym fod angen iddynt newid.

Dull strategol pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc â chanser

Cronfa Deithio i Gleifion Canser Ifanc

Gwell profiad o gael diagnosis

Cymorth cynhwysfawr yn ystod ac ar ôl y driniaeth

Mae'r fersiwn lawn o'n maniffesto ar gael ar ein gwefan. Mae ynddi fwy o fanylion am ein pedair blaenoriaeth uchaf a pham maen nhw'n bwysig.

# SUT Y GALLAF HELPU?

Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch chi helpu i godi lleisiau plant a phobl ifanc â chanser. Dyma ambell un!

## Rhannwch ein maniffesto ar bob tu

Rhannwch y postiadau o'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Young Lives vs Cancer i ledu'r gair am ein maniffesto. Rydyn ni am i bawb wybod am y pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc â chanser.

## Siaradwch ag ymgyrchwyr sy’n curo ar eich drws

Yn aml, bydd ymgeiswyr a thimau ymgyrchu’n curo ar ddrysau yn ystod cyfnod yr ymgyrch etholiadol. Mae hwn yn gyfle gwych i siarad â nhw am ein maniffesto a'r materion sy'n bwysig i gleifion canser ifanc, er mwyn iddynt eu deall a gallu eu cefnogi.

## Ewch i hustyngau neu ddigwyddiadau lleol

Ewch i ddigwyddiadau a gynhelir yn eich ardal leol, megis hustyngau neu ddadleuon, lle gallwch ofyn cwestiynau i'ch ymgeiswyr lleol am gefnogi ein maniffesto ac anghenion plant a phobl ifanc â chanser.

## Ysgrifennwch at eich ymgeiswyr lleol

Efallai y bydd eich ymgeiswyr lleol yn cyhoeddi manylion ar sut y gallwch gysylltu â nhw. Gallech gysylltu i rannu ein maniffesto a pham rydych chi'n meddwl y dylent ei gefnogi. Ar ôl 9 Ebrill, gallwch ddod o hyd i restr lawn o'ch ymgeiswyr yma.

## Gofynnwch

"Os cewch eich ethol, a fyddwch chi'n cefnogi plant a phobl ifanc â chanser?"

# SESIWN HOLI AC ATEB GYDAG ENLLI

## Pam mae angen i Lywodraeth Cymru nesaf flaenoriaethu plant a phobl ifanc â chanser?

"Mae angen gwell cefnogaeth i bobl ifanc gael gafael ar yr hyn sydd ei angen arnynt i gael diagnosis ac i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod ac ar ôl triniaeth. Byddai'r maniffesto hwn i flaenoriaethu plant a phobl ifanc â chanser yn helpu'n aruthrol i gefnogi'r gwaith y mae Young Lives vs Cancer yn ei wneud a gwella teithiau canser pobl ifanc yn y dyfodol"

## Pa bwyntiau maniffesto ydych chi'n uniaethu â nhw fwyaf?

"Rwy'n uniaethu â'r cyfan, yn enwedig y costau teithio a gwell profiad diagnosis, ynghyd â gwell cefnogaeth yn ystod ac ar ôl triniaeth. Dyma ychydig o bethau ychwanegol nad oes eu hangen ar glaf canser ifanc ar ben popeth arall. A minnau'n 19 oed adeg y diagnosis, roedd hyn i gyd yn gwneud popeth gymaint yn anoddach."

## Pam mae'n bwysig siarad ag ymgeiswyr etholiad am y materion hyn?

"Mae siarad am y materion hyn ag ymgeiswyr yn hanfodol i bleidiau gwleidyddol ddeall yn wirioneddol y straen sydd ar bobl ifanc a'u teuluoedd wrth wynebu diagnosis canser."

## Pam mae angen i ni ymgyrchu?

"Trwy ymgyrchu dros y materion hyn, gobeithio na fydd yn rhaid i'r rhai a fydd yn cael profiadau tebyg yn y dyfodol boeni am y beichiau ychwanegol hyn a gorfod eirioli'n galetach drostynt eu hunain dim ond oherwydd eu bod yn ifanc. Nid yw canser yn gwahaniaethu yn ôl oedran, ac rwy'n un o lawer o bobl ifanc sy'n dyst i hynny."

# BETH MAE ANGEN I CHI EI WYBOD.

Mae Etholiad y Senedd ar 7 Mai. I bleidleisio, rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, a rhaid i chi gofrestru erbyn 11:59pm ar 20 Ebrill 2026.

Does dim angen i chi ddangos ID er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn.

Gallwch bleidleisio os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn

# GAIR PWYSIG AM ELUSEN YOUNG LIVES VS CANCER

Mae Young Lives vs Cancer yn ymgyrchu ar faterion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc â chanser a'u teuluoedd. Mae hyn yn rhan o nodau ein helusen i wella profiadau a chanlyniadau i gleifion canser ifanc.

Rydym yn ymgyrchu yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad i ymhelaethu ar anghenion plant a phobl ifanc â chanser i'r rhai a fydd yn AS yn y dyfodol a Llywodraeth nesaf Cymru.



Nid gwleidyddoli ein helusen mo’r nod. Y nod yw codi lleisiau ac anghenion cleifion canser ifanc i'r lefelau uchaf o wneud penderfyniadau ledled Cymru.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cysylltu â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr, ond rydym yn wleidyddol niwtral – nid ydym yn cefnogi nac yn ffafrio unrhyw bleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr. Rydym am i bob plaid wleidyddol, a Llywodraeth nesaf Cymru, sefyll dros blant a phobl ifanc â chanser a chefnogi ein galwadau maniffesto.

**Cadwch hyn mewn cof wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn a siarad am ein maniffesto.**

# YN OLAF, DIOLCH YN FAWR!

Diolch gen i, a chan bawb yn Young Lives vs Cancer, am ein helpu i godi lleisiau plant a phobl ifanc â chanser, a'u teuluoedd, yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y pecyn cymorth hwn neu ymgyrchu yn ystod yr etholiad, cysylltwch â Thîm Ymgyrchoedd Young Lives vs Cancer campaigns@younglivesvscancer.org.uk.

Diolch i chi,
Enlli

Mae Young Lives vs Cancer am ddiolch i Enlli am rannu ei hanes yn y pecyn cymorth hwn a defnyddio ei llais i ymgyrchu dros newid i blant a phobl ifanc â chanser.

Os hoffech rannu eich stori, i hybu ymwybyddiaeth neu fod yn rhan o'n hymgyrchoedd, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen hon.



YOUNG LIVES vs CANCER

Mae Young Lives vs Cancer yn enw gweithredol ar gyfer CLIC Sargent Cancer Care for Children. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1107328) a'r Alban (SCO39857). Swyddfa gofrestredig: Llawr 4ydd, Whitefriars, Lewins Mead, Bristol, BS1 2NT